



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

**Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd
Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau yma'n darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Erthygl 22 o Reoliad y Cyngor (EC) 2371/2002 ac Erthygl 9 o Reoliad y Cyngor (EEC) 284/93 sy'n gorfodi gofynion ynglyn â marchnata a phrynu pysgod am y tro cyntaf.

Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae erthyglau 5(3) a (6) a 9(3) a (6) yn cyfeirio at yr "ail flwyddyn galendr" ond mae erthyglau 5(5)(a) a 9(5)(a) yn cyfeirio at yr "ail flwyddyn". Bernir y dylai "blwyddyn galendr" gael ei ddefnyddio'n gyson. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Erthygl 6(10) yn diffinio "person sy'n rheoli safle arwerthu pysgod dynodedig" gan gynnwys perchennog safle o'r fath a pherson sydd â safle o'r fath yn ei feddiant. Does dim angen bod yn berchennog ar fangre i'w gael yn eich meddiant. Mae'r testun Cymraeg yn defnyddio "perchen" i olygu "in possession". Mae "perchen" yn cyfleu perchnogaeth a bernir "meddiant" sy'n fwyaf priodol yn y cyddestun yma. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)].

Bernir bod y mân wallau drafftio ac anghysondebau uchod yn addas i gael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Mae testun Cymraeg y Rheoliadau'n defnyddio "trosedd" i olygu "offence" drwyddi draw. Er nad yw hyn yn anghywir, mae'n wahanol i'r arfer, sef defnyddio "tramgwydd" i olygu "offence" yn is-ddeddfwriaeth y Cynulliad; mae "trosedd" yn cael ei ddefnyddio i gyfieithu "a crime".

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

16 Mai 2006